



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Allied Health-Services - Gwent

**Ystafell 133 a 134 Y Ganolfan Arloesi
Festival Drive
Glynebwy
NP23 8XA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/09/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Allied Health-Services - Gwent

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Allied Health -Service Limited
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Gorffennaf 2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda ac maent yn canmol y gweithwyr gofal sy'n rhoi cymorth iddynt. Mae'r darparwr gwasanaeth yn cwblhau cynlluniau personol gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth sy'n rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar sut i ddiwallu anghenion yr unigolion. Fodd bynnag, ni chaiff y cynlluniau symudedd a'r asesiadau risg eu cwblhau'n fanwl bob amser. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu monitro, ac mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill pan fo angen. Nid yw'r ddogfennaeth gofal bob amser yn adlewyrchu'r ffaith bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol. Caiff meddyginiaeth ei rhoi yn ddiogel ac mae'n helpu'r bobl i gynnal eu hiechyd.

Dengys y datganiad o ddiben yn glir yr ystod o anghenion iechyd a gofal y mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth ar eu cyfer. Caiff y staff hyfforddiant a chymorth sy'n sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae prosesau diogelu ar waith, ond mae angen gwella'r systemau a'r polisiau. Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau ar waith er mwyn ymgysylltu â'r bobl a'r staff. Mae'r trefniadau llywodraethu yn cefnogi gweithrediad y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar y bobl, ond mae angen monitro'r broses o oruchwylio amseroedd ymweliadau gofal yn well.

Llesiant

Mae'r staff yn darparu gofal a chymorth sy'n hybu llesiant cyffredinol y bobl. Caiff dewisiadau'r bobl eu cydnabod a'u deall ac mae'r ffordd y maent yn dymuno derbyn cymorth wedi'i ddogfennu yn eu cynlluniau personol. Nid yw adolygiadau o gynlluniau personol bob amser yn adlewyrchu'r ffaith bod unigolion yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu bob tri mis ac ni chaiff canlyniadau'r bobl eu gwerthuso bob amser. Mae'r bobl yn cael cymorth gan y staff sydd â dealltwriaeth dda o anghenion pob unigolyn. Dywedodd y darparwr gwasanaeth wrthym nad oes unrhyw unigolyn angen gwasanaeth yn Gymraeg ar hyn o bryd, ond bod y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn nogfennaeth y gwasanaeth.

Caiff iechyd a llesiant corfforol y bobl ei gefnogi; fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau symud a chodi a chario bob amser yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ar sut i gefnogi'r bobl yn ddiogel. Dywedodd y bobl sy'n derbyn gwasanaeth wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol ar y cyd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu ar eu rhan. Mae gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl. Nid yw'r bobl bob amser yn cael y gofal a'r cymorth cywir pan fydd ei angen arnynt. Dengys y cofnodion fod y staff gofal yn aros am hyd yr ymweliad gofal; fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn amseroedd yr ymweliadau. Nid yw'r cynlluniau symudedd sy'n rhoi gwybod i'r staff sut i gefnogi'r bobl yn gynhwysfawr bob amser.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r gwasanaeth wedi gwella'r systemau ar gyfer trin meddyginiaethau yn ddiogel. Nodwn fod y darparwr wedi cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar y staff y mae wedi'u recriwtio cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r DBS yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae trefniadau ar waith er mwyn i'r bobl godi pryderon. Mae'r darparwr gwasanaeth yn adrodd ar faterion yn ymwneud â diogelu i'r partïon perthnasol yn ôl y gofyn, ond nid yw'r wybodaeth ar ddiogelu ar y systemau mewnol bob amser ar gael. Mae gan y darparwr bolisi diogelu ar waith, ond nid yw'n cydymffurfio â 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru'.

Mae gan y darparwr gwasanaeth strategaeth reoli glir ar waith ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth. Gwelsom adroddiadau sicrhau ansawdd a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol bob chwarter. Mae'r adroddiadau yn cynnwys trosolwg o'r gwasanaeth ac yn nodi ei fod wedi ymgysylltu â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff yn rheolaidd. Gall y bobl fynegi eu barn a chânt gyfle i gyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r cofnodion rheoli galwadau yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r bobl bob amser yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y trefniadau cyfathrebu'n dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ond dengys y cofnodion nad ydynt bob amser yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gwerthfawrogi eu cydberthnasau â'r gweithwyr gofal; fodd bynnag, nid yw'r amseroedd ymweliadau gofal bob amser yn cael eu cwblhau yn unol â chynlluniau personol y bobl. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth, a bod gweithwyr gofal rheolaidd yn ymweld â nhw sy'n eu galluogi i feithrin cydberthnasau gwaith da. Dywedodd un person wrthym, *"They are like my mother, sisters, and daughters all in one. They really are like family."* Gwnaethom edrych ar sampl o amseroedd ymweliadau ar gyfer un unigolyn. Gwelsom fod diffyg cysondeb o ran amseroedd yr ymweliadau gofal ac nad ydynt yn adlewyrchu'r ffaith y cynhelir ymweliadau gofal yn ystod amseroedd o ddewis y bobl fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Dywedodd cynrychiolydd un unigolyn wrthym, *'Care calls are generally around the expected time, however at weekend calls can be over 60 minutes late.'* Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn darparu canllawiau clir i'r staff ar sut i ddiwallu anghenion y bobl. Mae cynlluniau o'r anghenion cymorth ar waith, ond gwelsom nad oedd darnau o wybodaeth yn ddigon manwl. Gwnaethom edrych ar gynllun ymataliaeth ar gyfer un unigolyn a gwelsom ei fod yn cynnwys digon o fanylion ar sut yr hoffent i'w hanghenion gael eu diwallu. Fodd bynnag, gwelsom asesiad risg a chynllun symudedd unigolyn arall nad oedd yn cynnwys digon o fanylion er mwyn i'r staff wybod sut i gefnogi'r unigolyn hwn yn ddiogel. Nid yw'r adolygiadau o gynlluniau personol yn adlewyrchu'r ffaith bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu hanghenion gofal. Nid yw'r gwasanaeth yn monitro a chofnodi sut y caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol ychwaith. Nodwyd methiannau tebyg yn ystod yr arolygiad diwethaf. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac maent yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r bobl rhag camdriniaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod staff y swyddfa yn dda iawn a'u bod yn ymateb i unrhyw fater yn gyflym. Gwnaethom edrych ar nifer fach o sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gwelsom fod y staff gofal yn eu cwblhau'n dda. Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefn feddyginiaeth ar waith, ac maent ar gael i'r staff eu dilyn. Caiff archwiliadau o feddyginiaethau eu cwblhau a gwneir cofnod o unrhyw gamau gweithredu dilynol. Nodwn y cynhelir asesiadau cymhwysedd meddyginiaeth a threfniadau goruchwylio gallu'r staff i roi meddyginiaeth yn rheolaidd. Gwneir atgyfeiriadau amserol at y gweithwyr proffesiynol perthnasol pan fydd anghenion y bobl yn newid. Er enghraifft, cymorth gan nyrs ardal.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y broses o oruchwylio ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth ei dangos sy'n rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ddiogel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau bob tri mis a chasglu adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'r staff. Mae'n amlwg fod y prosesau sicrhau ansawdd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac y caiff y broses o ddarparu gwasanaeth ei goruchwylio gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn darparu darlun cyffredinol o'r gwasanaeth a gynigir, gan gynnwys darpariaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal yn ystod y chwe mis diwethaf ond nid yw'n adlewyrchu'r broses o ymgysylltu â'r bobol sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fanwl. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd bod y broses o sicrhau ansawdd y gofal yn cael ei hadolygu ac y bydd yn cael ei chryfhau.

Mae systemau ar waith i wneud, storio ac archwilio atgyfeiriadau diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol. Gall y rheolwr gysylltu'n uniongyrchol â'r Unigolyn Cyfrifol, a dywedodd wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan ddarparwr y gwasanaeth. Nid yw'r broses o fonitro ymweliadau gofal mor gadarn ag y dylai fod, a gwelsom nad yw'r ymweliadau hwyr yn cael eu cofnodi ac na ymdrinnir â nhw yn unol â pholisi'r darparwr. Mae'r darparwr gwasanaeth yn cwblhau archwiliad ansawdd sy'n craffu ar y broses o ddarparu gwasanaeth. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r awdurdodau perthnasol yn cael hysbysiadau gan y gwasanaeth am ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae polisi diogelu ar gael, ond nid yw'n cydymffurfio â gweithdrefnau lleol a chenedlaethol Cymru. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n cael hyfforddiant, yn gymwys ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r ffaith y caiff rhaglen sefydlu ei chwblhau a dywedodd y darparwr wrthym y caiff y staff gofal eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn cael hyfforddiant yn rheolaidd. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o'r broses o ddiogelu oedolion rhag niwed. Cynhelir cyfarfodydd staff er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, ni chaiff sesiynau goruchwylio eu cynnal â'r staff yn rheolaidd fel sy'n ofynnol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae trefniadau dethol a fetio ar waith er mwyn galluogi'r darparwr gwasanaeth i wneud penderfyniad ar addasrwydd y staff cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r ffeiliau recriwtio a welsom yn dangos bod y gwiriadau cyn cyflogaeth ar addasrwydd y staff wedi'u cwblhau. Dengys y cofnodion Datgelu a Gwahardd bod y gwiriadau perthnasol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff. Caiff contractau cyflogaeth eu cynnig i'r staff a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom nodi nad yw geirdaon a gesglir i sicrhau addasrwydd a hygredd y

staff yn cael eu casglu fel sy'n ofynnol bob amser. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
16	Sicrhau bod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolwr yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r cynllun personol bob tri mis a chynnwys y graddau y mae'r unigolyn wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol.	Newydd
21	Sicrhau y darperir y gofal a'r cymorth i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolyn.	Heb Gyflawni
15	Sicrhau bod y cynllun personol symud a chodi a chario ar gyfer yr unigolyn yn nodi sut y bydd anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu diwallu	Heb Gyflawni
27	Sicrhau pan fo honiad o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, fod cofnod yn cael ei gadw o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.	Heb Gyflawni
36	Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio'n briodol bob tri mis gyda'u rheolwr llinell	Heb Gyflawni
35	Sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad â'r materion a bennir yn Rhan 1 i Atodlen 1 a bod y wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni	Heb Gyflawni
8	Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.	Cyflawnwyd
73	Sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cwrdd ag aelodau o staff ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis	Cyflawnwyd
58	Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i weinyddu meddyginiaeth yn ddiogel	Cyflawnwyd
60	Sicrhau bod AGC yn cael ei hysbysu am y digwyddiadau a bennir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 3	Cyflawnwyd
42	Sicrhau bod gweithwyr gofal sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu yn cael cynnig y dewis o	Cyflawnwyd

	drefniadau contractiol eraill	
--	-------------------------------	--

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 10/11/2023